

## Polisi Buddsoddi Cynaliadwy

Nod Prifysgol Bangor yw bod yn lle ysbrydoledig i fyw, gweithio ac astudio, yn hyrwyddo llesiant cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol, cyfiawnder, cywirdeb a thwf cynaliadwy mewn cymdeithas. Rydym wedi ymrwmo i sicrhau bod ein cyllid yn cael ei fuddsoddi'n gyfrifol. Mae'r polisi hwn yn sicrhau bod y Brifysgol yn gwneud y gorau o'r elw o'u buddsoddiadau heb beryglu ein hymrwymiad i gynaliadwyedd a llesiant cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol.

Ein hamcanion yw:

- Uchafu elw ar fuddsoddiadau (cyfalaf ac incwm); cyfyngu risg i lefel dderbyniol a chynnal portffolio o fuddsoddiad amrywiol sy'n adlewyrchu'r angen i ariannu datblygiadau yn y dyfodol
- Cynnal gwerth ein cyllid, ar ôl ystyried chwyddiant (o leiaf) dros y tymor hir
- Darparu llif incwm i'r brifysgol ac i'r cronfeydd gwaddol

### Ein dull o weithredu

Rydym yn deall bod sut y byddwn yn dewis buddsoddi o ddi-ddordeb i'n myfyrwyr a rhanddeiliaid eraill. Wrth benderfynu sut i fuddsoddi mae Prifysgol Bangor yn ymrwmo i wneud hynny'n gyfrifol ac yn gynaliadwy, gan gydnabod ein cyfrifoldebau amgylcheddol, cymdeithasol, diwylliannol a llywodraethol. Mae UBS AG wedi cael eu penodi fel rheolwyr Portffolio'r Brifysgol ac rydym wedi mabwysiadu eu strategaeth fuddsoddi cynaliadwy, sy'n ystyried yr egwyddor Datblygu Cynaliadwy h.y. bod "rhaid i ni weithredu mewn ffordd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain".

Rydym yn disgwyl i'n rheolwr gymhwyso cyfuniad o sgriniau negyddol a chadarnhaol er mwyn sicrhau nad ydym yn buddsoddi mewn cwmnïau a all fod yn niweidiol i gymdeithas neu'r amgylchedd, ond yn hytrach, buddsoddi mewn busnesau sydd â diwylliant ac ymarferion cyfrifol wedi eu llywodraethu'n dda. Nid yw Prifysgol Bangor yn buddsoddi mewn busnesau dadleuol fel:


- Arfau
- Alcohol
- Gamblo
- Tybaco
- Adloniant Oedolion

**Datganiad ar Danwydd Ffossil:** Nid oes gennym fuddsoddiadau uniongyrchol mewn tanwyddau ffosil echdynnol yn ein portffolio presennol ac adolygir hyn yn flynyddol ac adroddir arno. Nid yw'n fwriad gennym fuddsoddi mewn tanwyddau ffosil yn y dyfodol ac mae'n annhebygol y byddai cwmni o'r fath yn pasio proses sgrinio cynaliadwy gadarn ein rheolwr. Credwn fod ein dull cytbwys, meddylgar o fuddsoddi yn briodol, yn gyfrifol ac yn gynaliadwy. Yn y modd hwn, mae Prifysgol Bangor yn cydymffurfio ag egwyddorion ACLL (ESG)\*, gan gyfrannu at Gymru sy'n Gyfrifol yn Fyd-eang a Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig.

Bydd y Polisi Buddsoddi Cynaliadwy hwn yn cael ei adolygu'n flynyddol gan y Pwyllgor Buddsoddi, yn cael ei gymeradwyo gan y Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau, a'i adrodd i Gyngor y Brifysgol. Caiff ei rannu hefyd â phoblogaeth ehangach y brifysgol ac mae ar gael i'r cyhoedd ar wefan y brifysgol.

**Cymeradwywyd gan:** Y Pwyllgor Buddsoddi

**Llofnodwyd gan:** Gadeirydd y Pwyllgor Buddsoddi a'r Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau.



(Marc Jones)

**Polisi Buddsoddi Cynaliadwy**

**Diweddarwyd: 1<sup>af</sup> Awst 2020 Dilys tan: 31<sup>ain</sup> Gorffennaf 2021**

\*Mae ACLL/ESG yn cyfeirio at y dair elfen sy'n ganolog i fesur cynaliadwyedd ac ardrawiad moesegol unrhyw fuddsoddiad mewn cwmni neu fusnes – Amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraeth corfforaethol.